

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER
18 RHAGFYR 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Mercher, 18 Rhagfyr 2019.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: David Cox, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, Dennis Hutchinson, Ted Palmer, Kevin Rush, Paul Shotton a David Wisinger

DIRPRWYON: Y Cynghorwyr: Bernie Attridge (ar ran Helen Brown) a Patrick Heesom (ar ran Brian Lloyd)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr: Jean Davies a Ray Hughes

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Dave Hughes, Aelod Cabinet Tai; y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd; y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; a'r Rheolwr Menter ac Adfywio

Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a'r Rheolwr Digartrefedd a Chyngor – ar gyfer cofnod rhif 32.

HEFYD YN BRESENNOL: Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

29. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

30. COFNODION

Cafwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 6 a 22 Tachwedd 2019.

Cofnod rhif 22 (6 Tachwedd 2019): Benthyciadau Gwella Tai'r Sector Preifat - Cyfeiriodd y Cynghorydd Shotton at ei sylwadau am yr adeilad wedi'i addasu yng Nghei Connah, gan ofyn i'r swyddogion ddiolch i Jeff Williams am roi'r cyfle iddo weld y rhandai y mae cynigion bellach wedi'u gwneud arnynt. Cynigiodd bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Dolphin.

PENDERFYNWYD:

Y byddai'r ddwy set o gofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

31. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddiweddaraf, na wnaed unrhyw newidiadau iddi. O ran Olrhain Camau Gweithredu, roedd

mwyafrif y camau gweithredu oedd yn codi o'r cyfarfodydd blaenorol wedi cael eu cwblhau.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Attridge ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Palmer.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Awdurdodi'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Nodi'r cynnydd a wnaed o ran cwblhau'r camau gweithredu oedd heb eu cwblhau.

32. PAPUR BRIFFIO AR GYSGU ALLAN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad ar y camau blaenoriaeth sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â digartrefedd a'i atal ledled Sir y Fflint, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Digartrefedd Lleol y Cyngor, oedd wedi'i seilio ar dair prif thema'r Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y thema 'Pobl' a'i flaenoriaeth, sef pobl sy'n cysgu allan.

Cydnabuwyd nad oedd cysgu allan yn rhywbeth oedd wedi'i gyfyngu i drefi a dinasoedd mawr mwyach, gan ei fod yn ymestyn i ardaloedd eraill fel cymunedau yn Sir y Fflint. Roedd nifer o ffactorau'n cyfrannu at hyn, yn aml yn ymwneud â phroblemau cymhleth hirdymor, oedd yn gofyn am ymateb amlasiantaeth, gan gynnwys y tîm Cyffuriau ac Alcohol, a'r timau Tai a Lles. Ar ôl i'r darparwr gwasanaeth ddod â'r ddarpariaeth gwllâu mewn argyfwng i ben yn Sir y Fflint, canfuwyd cyfleuster arall dros dro yn Shotton ar gyfer y gwasanaeth lloches nos. Gyda'r broses recriwtio'n mynd rhagddi, y gobaith yw y bydd y gwasanaeth newydd ar gael o fis Ionawr am gyfnod o 18 mis i ddwy flynedd, nes y gellir canfod llety parhaol.

Siaradodd y Prif Swyddog am yr ystod o fentrau cadarnhaol a ddarparwyd drwy'r Cynllun Gweithredu Lleol, megis hyrwyddo'r ap Streetlink. Roedd yr adroddiad yn manylu ar yr amrywiol resymau dros ddigartrefedd, gyda chanran fawr yn ganlyniad i rieni yn methu neu'n amharod rhoi llety i'r unigolyn. Roedd y tîm wedi ymgysylltu'n ddiweddar â phedwar unigolyn y canfuwyd eu bod yn cysgu allan, ond roedd yn sylweddoli bod mwy o bobl allan yno, gan gynnwys syrffwyr sofffa. Roedd y broses recriwtio'n mynd rhagddi ar gyfer y gwasanaeth Tai yn Gyntaf, oedd yn fodel effeithiol ar gyfer ymgysylltu a darparu cymorth cofleidol i bobl sy'n cysgu allan gyda nifer o anghenion cymhleth.

Wrth ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr, croesawodd y Cadeirydd y peilot Tai yn Gyntaf gan ddweud y dylid canmol y Cyngor am ei ddull o fynd i'r afael â digartrefedd.

Diolchodd y Cynghorydd Attridge i'r swyddogion a'r Aelod Cabinet am yr adroddiad a'r camau gweithredu roedd y Cyngor yn eu cymryd. Dywedodd ei fod

yn siomedig bod partner strategol y Cyngor wedi rhoi'r gorau i'r ddarpariaeth gwbláu mewn argyfwng ar fyr rybudd, ac y gallai cymdeithasau tai wneud mwy i fynd i'r afael â digartrefedd yn Sir y Fflint. Mewn ymateb i gwestiynau, siaradodd y Prif Swyddog am ddatblygu'r dull amlasiantaeth yn fodel effeithiol i helpu cael pobl oddi ar y strydoedd. Roedd darparwr gwasanaeth y lloches nos yn awyddus i ddatblygu a hyfforddi gwirfoddolwyr, a bydd yn cydweithio ag amrywiol sefydliadau megis *Help the Homeless*. Dywedodd y Rheolwr Digartrefedd a Chyngor y byddai sefydlu cysylltiadau â gwirfoddolwyr, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd, yn darparu rhwydwaith o gymorth i helpu pobl mewn angen.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dolphin at drafodaethau am ddatblygu Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, gan awgrymu cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac lechyd i edrych ar y pwnc mewn mwy o fanylder.

Cefnogodd y Pwyllgor awgrym yr Hwylusydd i gael adroddiad diweddar ymhen chwe mis i adolygu effaith y camau gweithredu, gan wahodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac lechyd. Dywedodd y Prif Swyddog fod y gwasanaeth yn gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar y broses ddiogelu, ac y byddai adroddiad diweddar yn archwilio cymhlethdodau sefydlu hunan-esgeulustod yn gyfreithiol. Rhoddodd sicrwydd na fyddai'r Cyngor yn troi ei gefn ar bobl sy'n cysgu allan sy'n gwrthod ymgysylltu â hwy, ac y byddai'r tîm yn parhau â'i ymdrechion, fel y dangoswyd gydag achos hirdymor diweddar ym Mwcle.

Wrth ddiolch i'r swyddogion am ymweld â Chyngor Tref Treffynnon, croesawodd y Cynghorydd Palmer y camau cadarnhaol, gan annog mwy fyth o ffocws ar yr unigolion hynny sy'n gwrthod ymgysylltu.

Mynegodd y Cynghorydd Shotton bryderon am nifer y bobl rhwng 18 a 24 oed sy'n cysgu allan, nad oedd eu rhieni'n gallu cynnig llety iddynt.

Canmolodd y Cynghorydd Butler ymateb y Cyngor i fynd i'r afael â digartrefedd, oedd yn broblem genedlaethol ddifrifol. Diolchodd i'r Prif Swyddog a'r Rheolwr, ynghyd â'r Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) am yr amser y maent wedi'i dreulio yn y lloches, y tu allan i oriau gwaith, yn helpu pobl mewn angen.

Wrth ganmol y tîm am eu gwaith, siaradodd y Cynghorydd Heesom am yr angen am fuddsoddiad ehangach a sefydlu cysylltiadau ag asiantaethau partner i weithio gydag unigolion ar weithgareddau allai wneud gwahaniaeth go iawn i'w bywydau. Dywedodd y swyddogion fod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar wedi cael ei gydnabod, a bod codi ymwybyddiaeth o'r profiadau sy'n arwain at ddigartrefedd, yn enwedig mewn ysgolion, yn helpu pobl ifanc i ddeall yr heriau hynny.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Attridge ar lefelau digartrefedd yn Sir y Fflint, dywedodd y Prif Swyddog, er bod y niferoedd wedi cynyddu, eu bod yn dal i fod yn gymharol isel o'u cymharu ag ardaloedd eraill fel Y Rhyl, Lerpwl a Manceinion. Ategodd y Cynghorydd Hughes hyn, gan ddweud bod y niferoedd yn is na rhai Wrecsam a Chaer. Dywedodd fod hyd yn oed un person sy'n cysgu allan yn ormod, ac y byddai'r Cyngor yn parhau â'i ymdrechion i helpu pobl mewn angen.

Dywedodd y Cynghorydd Bithell, er bod digartrefedd heddiw yn dorcalonnus, ei fod wedi bod yn amlwg ers rhai blynyddoedd. Wrth groesawu amrywiol fentrau, dywedodd ei bod yn anochel y byddai rhai unigolion yn dewis peidio â derbyn cymorth.

Gadawodd y Cadeirydd i Mr John Ennis, oedd yn bresennol yn yr oriel gyhoeddus, gael siarad. Cyfeiriodd Mr Ennis at bwysigrwydd cyllid digonol i fynd i'r afael â digartrefedd a lleihau'r rhestr aros am dai. Mewn ymateb i sylwadau am ddatgarboneiddio, dywedodd y Prif Swyddog fod hwn yn faes ffocws gan Lywodraeth Cymru i leihau biliau ynni a mynd i'r afael â thlodi tanwydd, allai arwain at ddigartrefedd.

Cafodd yr argymhellion, a ddiwygiwyd i adlewyrchu'r drafodaeth, eu cynnig gan y Cynghorydd Palmer a'u heilio gan y Cynghorydd Dolphin.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad a'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda nifer o asiantaethau i ateb yr heriau ar gyfer pobl sy'n cysgu allan; a
- (b) Cyfleu diolchiadau'r Pwyllgor i'r tîm Digartrefedd am y gwaith a wneir i ateb yr heriau ar gyfer pob unigolyn sy'n datgan eu bod yn ddigartref.

33. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DWRISTIAETH

Cyflwynodd y Rheolwr Menter ac Adfywio adroddiad am y prif feysydd gwaith a gyflawnwyd gan y tîm Datblygu Busnes i helpu'r sector twristiaeth. Roedd y cyfraniad i economi Sir y Fflint yn 2018 wedi codi 6.5% ers y flwyddyn cynt, sef y cynnydd mwyaf a gofnodwyd yng Ngogledd Cymru.

Darperir cymorth i'r sector twristiaeth gan y tîm Datblygu Busnes, sy'n cynnwys Swyddog Twristiaeth dynodedig. Nododd yr adroddiad yr ymagwedd gydweithredol a gymerwyd ag awdurdodau eraill i hyrwyddo twristiaeth ledled Gogledd Cymru drwy amrywiol fentrau. Roedd y bartneriaeth Rheoli Cyrchfan yn cynnwys cynllun gweithredu cydgysylltiedig i gynyddu nifer yr ymwelwyr a gwella profiad yr ymwelwyr.

Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd nifer o fannau diddordeb lleol gan y Cynghorydd Shotton, ac awgrymodd y Cynghorydd Cox archwilio cysylltiadau â digwyddiadau allanol, megis Eisteddfod Llangollen.

Holodd y Cynghorydd Dolphin am farchnata digwyddiadau lleol i annog ymwelwyr o du hwnt i Sir y Fflint.

Wrth groesawu'r cyfraniad i'r economi, siaradodd y Cynghorydd Heesom am yr angen i fuddsoddi mewn seilwaith cludiant lleol ar hyd yr A55 a'r angen hefyd i fynd i'r afael â'r derfynell olew a nwy yn Nhalacre a Dociau Mostyn.

Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Menter ac Adfywio bod gan y tîm bresenoldeb gweithgar ar y cyfryngau cymdeithasol a'i fod yn cyfeirio pobl at ymgyrchoedd lleol, er enghraifft, Marchnad Nadolig ddiweddar yr Wyddgrug, a

gynhyrchodd ddiddordeb sylweddol ar lein. Ar bwynt y Cynghorydd Heesom, dywedodd, er bod y tîm yn canolbwyntio ar fusnesau, bod gwaith y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am welliannau.

Ar y mater o seilwaith, dywedodd y Cynghorydd Butler bod cysylltedd trawsffiniol yn cael ei ddatblygu drwy Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy. Wrth gydnabod y ddemograffeg yn Sir y Fflint, siaradodd am fanteision rhannu adnoddau ar draws y rhanbarth, a chanmolodd y mentrau oedd yn cael eu cynnal gydag adnoddau cyfyngedig.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Palmer, dywedodd y Rheolwr Menter ac Adfywio fod yna hanes maith o hyrwyddo Treffynnon fel cyrchfan hanesyddol bwysig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hutchinson at effaith negyddol cyflwr y trenau a'r oedi yn y gwasanaethau yng ngorsaf Bidston. Rhoddodd y Cynghorydd Butler sicrwydd bod sylwadau wedi'u gwneud ar wella'r daith i ac o Lerpwl a fyddai o fudd i'r economi.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Shotton ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Cox.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r cynnydd a wnaed gyda chefnogi'r sector twristiaeth yn Sir y Fflint.

34. RHAGLENNI YNNI DOMESTIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Bithell adroddiad oedd yn crynhoi'r dulliau a ddefnyddiwyd gan dîm Rhaglen Arbed Ynni Domestig y Cyngor i leihau tlodi tanwydd a gwella ansawdd bywyd trigolion Sir y Fflint. Roedd tlodi tanwydd yn cael ei gydnabod fel problem genedlaethol a lleol, fel y blaenoriaethwyd yng Nghynllun y Cyngor, ac yn fwy tebygol o effeithio unigolion oedd yn byw mewn eiddo llai effeithlon o ran ynni.

Roedd lleihau tlodi tanwydd yn her sylweddol oherwydd nifer yr eiddo hŷn yng Nghymru, oedd yn ddrud i'w gwneud yn fwy effeithlon o ran ynni. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae tîm y Rhaglen Arbed Ynni Domestig – sy'n cynnwys pum aelod staff – wedi llwyddo i osod 4,600 o fesurau arbed ynni mewn 4,000 o aelwydydd.

Darparodd y Rheolwr Menter ac Adfywio drosolwg o'r prif raglenni gwaith, gan gynnwys cyflwyno benthyciadau tai LIC tuag at systemau gwresogi newydd i aelwydydd sy'n dioddef o dlodi tanwydd. Eglurodd bod y tîm yn gweithio ag unigolion o bob deiliadaeth eiddo i'w helpu i gael gafael ar gyllid, oedd yn fater cymhleth. Anogwyd yr aelodau i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau'r tîm.

Rhoddodd y Cadeirydd enghraifft lle bu i'r tîm helpu preswlydd oedd yn amharod i gael cymorth ar y cychwyn, a arweiniodd at ganlyniad cadarnhaol. Yn ystod y drafodaeth, cafwyd enghreifftiau tebyg gan Aelodau eraill o drigolion oedd wedi elwa ar gymorth y tîm, a diolchwyd iddynt am eu gwasanaethau.

Wrth amlygu pwysigrwydd rhannu gwybodaeth am fynd i'r afael â thlodi tanwydd, gofynnodd y Cynghorydd Heesom i'r adroddiad gael ei rannu â'r Cabinet, gydag adroddiad diweddarau'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen chwe mis.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dolphin at adroddiadau blaenorol a gafwyd ar y pwnc. Cytunodd y swyddog i ymateb ar wahân i'w chwestiwn penodol am fesurydd trydan rhagdaledig.

Mewn ymateb i ymholiadau, eglurodd y Rheolwr Menter ac Adfywio y trefniadau cyllid ar gyfer y gwasanaeth, fel y nodir yn yr adroddiad. Cyfeiriodd at fuddsoddiad y Cyngor mewn mesurau arbed ynni ar gyfer ei stoc dai ei hun a'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alyn.

Cafodd yr argymhellion, a ddiwygiwyd i adlewyrchu'r drafodaeth, eu cynnig gan y Cynghorydd Heesom a'u heilio gan y Cynghorydd Attridge.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflwyno rhaglenni arbed ynni domestig i helpu aelwydydd sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn Sir y Fflint; a
- (b) Argymell yr adroddiad i'r Cabinet er mwyn pwysleisio'r camau cadarnhaol sy'n cael eu cymryd gan y Cyngor i leihau tlodi tanwydd a gwella ansawdd bywyd y trigolion.

35. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.50am)

.....
Y Cadeirydd